Yn 2010 comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Pobl a Gwaith i wneud arolwg er mwyn darparu tystiolaeth sylfaenol o 'nifer a mynychder achosion o fwlio' ymysg disgyblion oedran ysgol gorfodol yng Nghymru. Pwrpas y gwaith hwn oedd caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad 'fesur newidiadau yn y dyfodol i lefel bwllo yng Nghymru'. Cymerodd 7,448 o ddisgyblion o 167 o ysgolion a phum uned cyfeirio disgyblion ran yn yr arolwg, ac roedd cyfrannau'r disgyblion a ddywedodd eu bod wedi cael eu bwllo yn y flwyddyn ysgol ddiwethaf fel a ganlyn: 47% ym mlwyddyn 6; 44% ym mlwyddyn 7; a 25% ym mlwyddyn 10.

Mae'r canfyddiadau allweddol eraill yn cynnwys:

- rhwng 5% a 10% o boblogaeth y disgyblion yn profi bwllo 'difrifol';
- roedd y disgyblion ym mlynnyddoedd 6, 7 a 10 a gafodd eu bwllo am 'tua blwyddyn' yn dueddol o roi gwybod am amllder llawer uwch ar gyfer bwllo: roeddent o leiaf saith gwaith yn fwy tebygol o roi gwybod am gael eu bwllo 'sawl gwaith yr wythnos';
- roedd merched ym mhob grŵp blwyddyn yn fwy tebygol na bechgyn o roi gwybod am fathau anuniongyrchol o fwlio, fel cael eu cau allan o weithgareddau yn fwriadol. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o wynebu seiberfwlio;
- roedd bechgyn ym mlynnyddoedd 6, 7 a 10 yn fwy tebygol o roi gwybod am fwlio homoffobaidd;

- dywedodd rhwng 12% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7, yn codi i dros 20% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10, iddynt weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hil neu eu hethnigrwydd;
- roedd cyfran y disgyblion a ddywedodd eu bod wedi cael eu bwlio ar sail rhywioldeb fel a ganlyn: 19% o ddisgyblion ym mlwyddyn 6; 15% o ddisgyblion ym mlwyddyn 7; a 10% o ddisgyblion ym mlwyddyn 10;
- ym mlwyddyn 6, roedd 22% o ddisgyblion wedi'u bwlio mewn ffordd homoffobaidd, gan ostwng i 9% ym mlwyddyn 10;
- roedd cyfran y disgyblion a ddywedodd iddynt weld eraill yn cael eu bwlio oherwydd eu hanabledd yn 20% ar gyfer blwyddyn 6 ac 19% ar gyfer blwyddyn 7, gan gynyddu i 24% ar gyfer blwyddyn 10.

Mae ChildLine yn monitro'r mathau o alwadau a dderbynnir bob blwyddyn a'r pryderon a fynegir gan blant a phobl ifanc. Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf, bwlio yw'r prif reswm pam y mae plant yn ffonio ChildLine.

Mae'r ffigurau diweddaraf, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2011/12 (nid oedd ffigurau 12/13 ar gael pan oedd y llyfryn hwn yn mynd i'r wasg), yn dangos bod 560 o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodedig am fwlio yng Nghymru, a bod pedwar o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd yn barhaol. Yn ychwanegol at hyn, roedd 22 o waharddiadau parhaol a 1,026 o waharddiadau am gyfnod penodedig am ymosodiad neu drais yn erbyn staff, a 18 a 3,136 o waharddiadau am gyfnod penodedig am ymosodiad neu drais yn erbyn disgyblion.

Mae'n bwysig sylweddoli faint o effaith y mae bwlio'n ei gael. Mae bwlio'n weithgaredd niweidiol ac mae'n bosibl y bydd unigolion yn dal i deimlo ei effeithiau pan fyddant yn oedolion. Yn y tymor byr, mae bwlio'n cael effaith uniongyrchol ar les yr unigolyn sy'n cael ei dargedu, gan effeithio ar ei hyder a'i hunan-dyb, a gall hyn arwain at ofn mynd i'r ysgol. Mae'n effeithio ar iechyd yr unigolyn sy'n cael ei dargedu ac mae'r symptomau'n debyg i'r rhai sy'n gysylltiedig â straen: gorbryder, panig, methu cysgu, cur pen a phoen meddwl.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod rhai dioddefwyr a chyflawnwyr yn dioddef effeithiau hirdymor. Gall bwlio am gyfnod estynedig arwain at fath arall o salwch, ac mae achosion o blant yn dioddef cyflyrau fel brech ar y croen a cholli gwallt.

Yn ôl y Samariaid, mae tua 24,000 o bobl ifanc rhwng 10 ac 19 oed yn ceisio lladd eu hunain bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr yn unig. Mae

hyn yn cyfateb i un ymgais bob 20 munud. O ran pobl ifanc 15-24 oed ledled y Deyrnas Unedig, hunanladdiad yw'r achos marwolaeth mwyaf ond un, yn ail i ddamweiniau ffordd. Mae bwlio'n cael ei ddyfynnu fel ffactor mewn nifer o achosion o hunanladdiad ymhlith pobl ifanc.

Gall bwlio ar sail rhagfarn fod yn niweidiol iawn i unigolion, boed ar sail rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, ethnigrwydd, delwedd/maint corff, rhywioldeb, anabledd, oed, crefydd neu gred. Mae'r mathau hyn o fwlio'n seiliedig ar y gwahaniaethau rhwng disgyblion. Yn aml iawn felly, y rhai sy'n cael eu targedu yw'r rhai hynny sy'n lleiafrifoedd o fewn grŵp neu ddosbarth o gyfoedion. Mae hyn yn eu hynysu ac yn ychwanegu at unrhyw ofnau sydd ganddynt ynglŷn â pheidio â ffitio i mewn.

Pan fyddant yn oedolion, mae'n bosibl y bydd gan y rhai hynny sydd wedi cael eu herlid a'u bwlio'n ddrwg hunan-dyb isel, ac mae tuedd iddynt gael pyliau o iselder hefyd. Os yw'r bwlio wedi bod yn gysylltiedig â rhagfarn, gall unrhyw wahaniaethu pellach y mae unigolion yn ei wynebu mewn cymdeithas wneud problemau'n waeth.

Gall y canlyniadau hirdymor i fwlis fod yn ddifrifol hefyd ac mae nifer o astudiaethau'n dangos bod bwlis, o'u cymharu â'u cyfoedion, yn fwy tebygol o ymwneud â mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol megis fandaliaeth a chamdddefnyddio cyffuriau. Mae yna hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu bod bwlis yn fwy tebygol o gyflawni troseddau pan maent yn oedolion.

Mae'n rhaid i ni gydnabod bwlio, ei ddeall a'i gymryd o ddifrif. Yn rhy aml o'r hanner mae bwlio'n cael ei wfftio gan bobl sy'n dweud ei fod yn 'rhan o dyfu i fyny' neu'n ddim byd ond 'tynnu coes'. Mae'r ymadrodd 'dim ond tynnu coes o'n i' wedi cael ei ddefnyddio ers cyn cof gan rai sy'n bwlio, yn erlid ac yn aflonyddu i geisio esgusodi a chyfiawnhau eu hymddygiad.

Mae rhai ysgolion yn honni nad oes ganddynt broblem bwlio, ond mae NASUWT yn ei chael hi'n anodd i dderbyn hyn. Yn aml iawn nid yw'r ysgolion hyn yn deall y problemau, neu maent yn credu y bydd tynnu sylw at broblem bwlio yn effeithio ar enw da'r ysgol. Mae'r trefniadau atebolrwydd sy'n cael eu gweithredu mewn ysgolion, lle mae gan ysgolion lawer iawn i'w golli, yn un o'r prif ffactorau sy'n gyfrifol am ymateb o'r fath.

Athrawon

Mae athrawon yn dod i gysylltiad â bwlio ar ddwy lefel. Yn gyntaf, fel gweithwyr proffesiynol, maent yn gorfod ymdrin â chanlyniadau un disgybl yn bwlio disgybl arall, ac yn ail, gall athrawon hefyd gael eu bwlio.

Bydd y ffordd y mae ysgol yn ymateb i achosion o fwlio ac aflonyddu ar staff yn dangos pa mor ddifrifol a pha mor effeithiol y mae'n mynd i'r afael â bwlio disgyblion. Bydd ysgol nad yw'n mynd i'r afael yn effeithiol ag achosion o fwlio ei gweithwyr yn cael mwy o anhawster i ddatblygu ymateb effeithiol a chredadwy i ddiogelu disgyblion.

Yn anffodus, mae'n ymddangos bod achosion o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith yr athrawon eu hunain yn gyffredin. Yn 2011, cynhaliodd NASUWT arolwg o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid mewn ysgolion. Dangosodd yr arolwg fod cyfran sylweddol o athrawon wedi dioddef bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Dywedodd un o bob tri o'r ymatebwyr fod rhywun wedi eu bwlio neu wedi aflonyddu arnynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd dau o bob tri athro neu athrawes a oedd wedi cael profiad o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn wedi cael y profiad fwy nag unwaith. Yn ôl un o bob pum athro roedd y bwlio'n digwydd yn gyson yn eu gwaith.

Bwlio/aflonyddu sy'n gysylltiedig ag oedran oedd y math mwyaf cyffredin y rhoddwyd gwybod amdano gan athrawon mewn 41% o achosion. Roedd hyn yn cael ei ddilyn gan fwlio sy'n gysylltiedig â hil/ethnigrwydd (19%), delwedd corff (16%) a rhywedd/rhyw/trawsrywedd (14%). Mae cymharu data a gasglwyd o'r arolwg hwn â data yn adroddiad Safe to Teach?, a gyhoeddwyd gan NASUWT yn 2007, yn awgrymu y gallai bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn fod wedi cynyddu, yn enwedig bwlio/aflonyddu sy'n gysylltiedig ag oedran.

Cyflawnwyd bron i hanner yr holl achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt yn arolwg 2011 gan reolwr llinell uniongyrchol yr unigolyn (48%), cyflawnwyd ychydig yn fwy na thraean o'r achosion gan gydweithiwr (36%) a chyflawnwyd tua chwarter yr achosion gan ddisgyblion (25%).

Rhaid cymryd bwlio o ddifrif bob amser, a dylid cymryd camau cyflym a phendant, pw y bynnag yw'r dioddefwr. Dylid cydnabod hefyd, os bydd disgyblion sy'n cael eu bwlio'n gweld athrawon yn cael eu bwlio, a'r ysgol yn gwneud dim, y bydd ganddynt fwy fyth o ofn rhoi gwybod am y bwlio ac y byddant yn teimlo hyd yn oed yn fwy unig.

MATHAU O FWLIO SY'N GYSYLLTIEDIG Â RHAGFARN

Bwllo homoffobaidd

Mae bwllo homoffobaidd yn cael ei gydnabod fwy a mwy fel problem eang mewn ysgolion, a dyma'r rheswm mwyaf cyffredin ond un dros fwlio plant a phobl ifanc. Oherwydd natur y bwllo hwn, fodd bynnag, efallai y bydd llawer o unigolion sy'n cael eu bwllo'n gyndyn o ddweud wrth rieni, staff neu gydweithwyr am y broblem gan fod arnynt ofn cael eu difrio a'u hynysu'n fwy fyth. Mae problem homoffobia yn aml yn broblem gudd, gan fod unigolion o bosibl yn gyndyn o siarad am y peth ac efallai'n teimlo nad yw'n ddiogel iddynt wneud hynny.

Mae ChildLine yn dweud eu bod yn derbyn tua 2,725 o alwadau y flwyddyn ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol. Mae 55% o'r galwadau hyn yn cael eu gwneud gan ferched, ond dim ond 25% ydynt o'r holl alwadau a dderbynnir gan y llinell gymorth. Roedd mwy na chwarter y galwadau hyn yn ymwneud yn benodol ag achosion lle'r oedd unigolion yn dweud eu bod yn cael eu bwllo ar sail homoffobia.

Mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio gan blant ysgol, a'r cynnydd yn y defnydd o'r gair 'gay' yn ddiweddar i ddynodi rhywbeth sy'n ddrwg, ddim yn 'cwl' neu'n 'naff', wedi ychwanegu at y problemau hyn. Yn ôl BeatBullying dywedodd 81% o blant oed ysgol gynradd fod y gair 'gay' yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o ymosod ar rywun neu wneud hwyl ar ei ben.

Gofynnodd The School Report, a gyhoeddwyd gan Stonewall yn 2012, ac sy'n ymdrin ag ysgolion yng Nghymru, gwestiynau ynglŷn â'r ysgol i fwy na 1,600 o blant lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Dywedodd mwy na hanner y plant hyn (55%) eu bod wedi cael profiad o fwlio homoffobaidd yn yr ysgol. O'r rhai hynny a ddywedodd eu bod wedi cael eu bwllo, roedd mwy na'u hanner wedi profi bwllo homoffobaidd geiriol ac roedd bron i'w chwarter wedi cael profiad o seiberfwlio.

Roedd un deg chwech y cant wedi cael profiad o gam-drin corfforol ac, yn frawychus iawn, dywedodd 6% fod rhywun wedi bygwth eu lladd. Dywedodd bron i draean y disgyblion a oedd wedi cael profiad o fwlio homoffobaidd eu bod wedi newid eu cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol oherwydd hyn.

Dim ond hanner yr ymatebwyr ddywedodd fod eu hysgolion yn dweud bod bwllo homoffobaidd yn annerbyniol, a dywedodd bron i ddau draean o'r

rhai a oedd mewn ysgolion ffydd nad oedd eu hysgol yn dweud bod bwlio o'r fath yn annerbyniol.

Yn aml iawn nid yw cwynion ynglŷn â bwlio homoffobaidd yn cael eu hystyried mor ddifrifol â rhai mathau eraill o fwlio, ac mae achwynwyr yn aml yn cael eu hannog i beidio â chodi materion o'r fath ac i beidio â mynd â hwy ymhellach. Yn ôl Stonewall Cymru, dim ond 6% o ysgolion Cymru sydd â pholisïau penodol ar gyfer ymdrin â bwlio homoffobaidd. O'r 94% sydd ar ôl, dywedodd 75% o'r ymatebwyr eu bod wedi profi bwlio homoffobaidd, dywedodd 50% eu bod wedi bod yn gyndyn o fynd i'r ysgol, roedd 50% arall wedi ystyried lladd eu hunain, roedd 40% wedi trio lladd eu hunain, ac roedd 30% wedi trio lladd eu hunain fwy nag unwaith.

Yn frawychus iawn, dangosodd arolwg Stonewall, The Teachers' Report, nad yw naw o bob deg athro/athrawes, a staff eraill mewn ysgolion uwchradd a chynradd, erioed wedi cael hyfforddiant penodol ynglŷn â sut i atal ac ymateb i fwlio homoffobaidd. Dywedodd mwy na chwarter staff ysgolion uwchradd (28%) na fyddent yn teimlo'n ddigon hyderus i gefnogi disgybl a fyddai'n penderfynu dweud wrtho/wrthi ei fod/ei bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol. Ni fyddai dau o bob pump yn teimlo'n ddigon hyderus i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddisgyblion ynglŷn â materion lesbiaidd a hoyw. Mae hanner yr athrawon ysgol uwchradd sy'n ymwybodol o fwlio homoffobaidd yn eu hysgolion yn dweud bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n rhai nad oes neb yn rhoi gwybod amdanynt.

Dangosodd arolwg NASUWT o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod athrawon hefyd yn dioddef bwlio homoffobaidd; dywedodd 7% o'r ymatebwyr fod rhywun wedi eu bwlio neu wedi aflonyddu arnynt am y rheswm hwn.

Bwlio hiliol

Mae bwlio ac aflonyddu ar sail hiliol yn broblem barhaus sy'n effeithio ar ysgolion, gan gynnwys yr ysgolion hynny lle nad oes llawer iawn o ddisgyblion neu staff o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig.

Mae bwlio hiliol yn wahanol i fwlio ar sail crefydd/cred ac mae unigolion yn cael eu targedu'n aml oherwydd lliw eu croen, ond gallai unigolion gael eu bwlio hefyd oherwydd eu gwreiddiau ethnig neu'r wlad y maen nhw'n hanu ohoni, gan gynnwys unigolion o gymunedau Teithwyr, sipsiwn a Roma, neu oherwydd eu statws preswyl, gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Yn 2014, derbyniodd ChildLine 1,400 o alwadau gan blant a oedd yn dioddef bwlio hiliol.

Gwelwyd cynnydd mewn bwlio hiliol sydd wedi'i gyfeirio tuag at fewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop, ac mae'n bwysig bod ysgolion yn sylweddoli nad yw bwlio hiliol wedi'i gyfyngu i safbwyntiau ynglŷn â disgyblion du a disgyblion gwyn yn unig.

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid mai bwlio ar sail hil neu ethnigrwydd oedd y math mwyaf cyffredin ond un o fwlio cysylltiedig â rhagfarn a brofwyd gan athrawon. Dywedodd 19% o'r ymatebwyr bod rhywun wedi eu bwlio neu wedi aflonyddu arnynt am y rheswm hwn.

Dangosodd yr arolwg hefyd fod ysgolion mewn rhai ardaloedd yn gweld achosion o weithgaredd hiliol neu ffasgaidd wedi'i drefnu. Dywedodd pymtheg y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn ymwybodol o weithgaredd hiliol neu ffasgaidd wedi'i drefnu yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol. Roedd wyth y cant yn ymwybodol ohono o fewn yr ysgol a 9% y tu allan i'r ysgol. Efallai y bydd ar yr ysgolion hyn angen cymorth ychwanegol gan awdurdodau lleol, undebau llafur a chyrrff eraill er mwyn sicrhau bod plant, pobl ifanc a staff yn cael eu diogelu rhag y dylanwadau hyn. Gall gweithgareddau grwpiau hiliol a ffasgaidd arwain at weithgareddau bwlio yn erbyn disgyblion o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

Bwlio ar sail ffydd

Mae bwlio ar sail ffydd yn cael ei gyfeirio tuag at unigolion a grwpiau oherwydd eu crefydd neu eu cysylltiad â chrefydd. Gall hefyd gynnwys ymddygiad bwlio sy'n cael ei gyfeirio tuag at unigolion nad ydynt yn perthyn i unrhyw ffydd.

Mae bwlio ar sail ffydd wedi gwaethygu mewn ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng nghyswllt Islamoffobia. Mae'r term 'Islamoffobia' yn cyfeirio at ragfarn a hiliaeth gwrth-Fwslimaidd, sy'n seiliedig ar ragfarn ddi-sail tuag at Islam. Mae'n broblem i bob ysgol, faint bynnag o ddisgyblion neu staff Mwslimaidd sydd yn yr ysgol. Bydd llawer o blant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig wedi cael eu dal yng nghanol y cynnydd mewn Islamoffobia ers digwyddiadau Medi 2001 a Gorffennaf 2005, beth bynnag yw eu gwir ffydd.

Nid yw'r rhagfarn wedi'i chyfyngu i agweddau tuag at Fwslimiaid. Gall plant mewn ysgolion ffydd gael eu targedu am nad ydynt yn rhan o'r prif grwpiau mewn ysgol, neu oherwydd eu bod yn wahanol iddynt.

Weithiau mae'n anodd gwahaniaethu rhwng bwlio ar sail ffydd a bwlio ar sail hil. Er bod cysylltiad annatod rhwng y ddau, mae'r ffordd y mae'r

rhagfarnau hyn yn cael eu hamlygu yn aml yn wahanol, a dylid mynd i'r afael â'r rhain mewn ffyrdd gwahanol.

Yn ôl adroddiad gan BeatBullying (2008), o'r 800 o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg ynglŷn â bwlio rhyng-ffydd, dywedodd 23% o'r rhai a oedd yn dilyn unrhyw grefydd eu bod wedi cael eu bwlio oherwydd eu ffydd, dywedodd 13% eu bod wedi cael eu bwlio oherwydd stereoteipio crefyddol a 9% oherwydd eu bod yn gwisgo symbolau crefyddol.

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod 11% o'r ymatebwyr wedi cael profiad o fwlio ar sail crefydd neu gred.

Bwlio ar sail oedran

Mae bwlio ar sail oedran wedi'i gyfeirio tuag at unigolion ar sail eu hoedran. Gall plant a phobl ifanc a staff gael eu targedu, ac yn aml iawn mae'n arwain at gau rhywun allan o'r grŵp neu'r rhwydwaith cymdeithasol. Mae bwlio rhwng disgybl a disgybl mewn cysylltiad ag oedran fel arfer yn bodoli yng nghyd-destun hierarchaethau pŵer a hynafedd mewn ysgolion, lle mae plant hŷn yn bwlio plant iau. Dyma sy'n digwydd fel arfer, ond mae eithriadau hefyd.

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod bwlio athrawon mewn cysylltiad ag oedran wedi cynyddu'n gyflym ers arolwg diwethaf yr Undeb, a gynhaliwyd yn 2007. Mae lle i bryderu gan fod 41% o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi cael profiad o fwlio sy'n gysylltiedig ag oedran, o'i gymharu â 9% o'r athrawon yn 2007.

Bwlio ar sail anabledd

Mae bwlio ar sail anabledd, fel mathau eraill o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, yn gysylltiedig â chredoau, tybiaethau a stereoteipiau afresymol a di-sail ynglŷn â'r person anabl a'i allu. Mae'r ffaith nad yw pobl anabl (yn enwedig plant) yn cael eu cyfleu mewn ffordd gadarnhaol yn y cyfryngau wedi ychwanegu at y math hwn o fwlio.

Dangosodd astudiaeth gan Mencap (2006) fod 82% o 507 o blant a phobl ifanc ag anabledd dysgu, wedi cael eu bwlio.

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod 11% o'r ymatebwyr wedi profi bwlio ar sail anabledd.

Mae diffyg cymorth addysgol arbenigol hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu tuag at fwlio sy'n seiliedig ar anabledd. Mae NASUWT yn cefnogi'r ymgyrch 'gwneud i'r ysgol wneud synnwyr', a drefnwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac a oedd yn galw am well darpariaeth i ddisgyblion sydd ag awtistiaeth. Yn 2009, anfonodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru becynnau codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gyfer athrawon, 'gwneud i'r ysgol wneud synnwyr' i bob ysgol yng Nghymru. Canfu arolwg o 1,400 o rieni â phlant awtistig a gynhaliwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn 2006 fod dau o bob pum plentyn ag awtistiaeth wedi profi bwlio.

Mae ymgyrch Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn galw am fwy o gefnogaeth yn yr ysgol i fyfyrwyr, un o'r ffactorau pwysicaf er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effaith y math hwn o fwlio. Mae deugain y cant o'r plant sydd ar y sbectwm awtistig yn profi bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac mae profiad plant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn aml yn waeth.

Bwlio rhywiaethol

Merched sy'n wynebu bwlio rhywiaethol fel arfer, ac yn aml iawn mae'r bwlio hwn o natur rywiol. Mae bwlio rhywiol yn fath o fwlio sy'n seiliedig ar ryw. Mae'n cynnwys ymddygiad ag elfen rywiol sy'n niweidiol, sy'n groes i ewyllys y sawl sy'n dioddef ac sy'n digwydd dro ar ôl tro.

Gall hyn gynnwys gwneud sylwadau rhywiol a galw enwau; lledaenu sïon rhywiol; defnyddio technoleg i lledaenu clecs, sylwadau neu ddelweddau rhywiol; a chyffwrdd rhywun mewn ffordd nad yw eisiau cael ei gyffwrdd (er enghraifft, cyffwrdd, pinsio neu daro rhannau o'r corff, plycio strapiau bras a dillad eraill, tynnu trowsusau i lawr, neu godi sgertiau).

Merched yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu bwlio rhywiol, ac mae'r bwllis fel arfer yn fechgyn, ond gall bechgyn hefyd gael eu bwlio'n rhywiol gan ferched, a cheir achosion o fwlio rhywiol rhwng pobl ifanc o'r un ryw.

Yn Ionawr 2009, rhyddhaodd yr elusen trais domestig, Cymorth i Fenywod, ganlyniadau arolwg a gynhaliwyd ar y cyd â Bliss, y cylchgrawn i ferched ifanc yn eu harddegau. Roedd y canlyniadau'n dangos bod tua un o bob pump o ddarllenwyr Bliss wedi cael niwed corfforol gan rywun roeddent yn mynd allan gydag ef. Yn achos merched 16 oed, mae'r nifer yn codi i un o bob pedair. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod bron i chwarter y merched 14 oed wedi cael eu gorfodi i gael rhyw neu wneud rhywbeth arall rhywiol nad oeddent eisiau ei wneud gan rywun roeddent yn mynd allan gydag ef.

Yn Nhachwedd 2010, canfu arolwg barn YouGov, a gomisiynwyd gan y gynghrair Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, fod bron i un o bob tair merch rhwng 16 a 18 oed yn dweud eu bod wedi cael profiad o rywun yn eu cyffwrdd yn erbyn eu hewyllys yn yr ysgol, ac mae 71% o'r rhai 16-18 oed yn dweud eu bod wedi clywed merched yn cael eu galw'n 'slwt' neu 'slag' mewn ysgolion yn ddyddiol neu sawl gwaith mewn wythnos.

Mae'r ffigurau diweddaraf, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2011/12, yn dangos bod 217 o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodedig yng Nghymru am aflonyddu ar rywun arall yn hiliol neu'n rhywiol. Mae'r achosion hyn yn cynnwys digwyddiadau fel rhoi dwylo ar rannau o gorff unigolyn yn groes i'w ewyllys, defnyddio llysenwau sarhaus o natur rywiol, peintio graffiti anweddus, ac ymosodiadau rhywiol difrifol.

Nid yw bwllo rhywiaethol a rhywiol wedi'i gyfyngu i ddisgyblion. Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod 13% o'r ymatebwyr wedi cael eu bwllo ar sail eu rhyw.

Bwllo trawsffobaidd

Mae bwllo trawsffobaidd yn digwydd pan mae pobl yn cael eu bwllo oherwydd eu hunaniaeth o ran rhywedd, neu eu hunaniaeth o ran rhywedd ymddangosiadol, neu oherwydd nad ydynt yn cydymffurfio â rolau rhywedd confensiynol o safbwynt diwylliannol. Mae 'traws' yn derm ymbarél sy'n disgrifio pobl y mae eu hymdeimlad o rywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd yn cael ei weld yn wahanol i normau rhywedd arferol.

Efallai y bydd plant o oed ysgol yn profi amrywiant rhyweddol, a allai eu gwneud yn darged ar gyfer bwllo. Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd (GIRES), mae un o bob 1,000 o blant ysgol yn pryderu am eu rhywedd – tua un disgybl ar gyfer pob ysgol uwchradd – er na fydd pob un ohonynt yn ystyried llawdriniaeth i ailbennu rhywedd.

Yn ôl ymchwil gan GIRES a'r grŵp dwyn pwysau ar faterion trawsryweddol, Press For Change, mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n profi amrywiant rhyweddol yn methu â chwblhau eu haddysg yn yr ysgol ac, yn fwy difrifol, bydd tua hanner yr holl bobl ifanc drawsryweddol sydd yn eu harddegau yn trio lladd eu hunain cyn iddynt gyrraedd 20 oed. Gallai athrawon trawsryweddol hefyd wynebu bwllo trawsffobaidd.

Mae bwllo trawsffobaidd yn aml iawn yn seiliedig ar agweddau rhywiaethol. Gall effeithio ar ddynion a merched fel ei gilydd. Gall unigolyn brofi bwllo trawsffobaidd hefyd o ganlyniad i ganfyddiadau bod rhiant, perthynas neu unigolyn arwyddocaol arall yn arddangos 'amrywiant' rhyweddol neu'n drawsrywiol. Gallai bwllo trawsffobaidd gynnwys herian oherwydd dillad neu edrychiad unigolyn, cyfeirio at fachgen fel 'hi', neu graffiti difriol neu ymosodiad corfforol.

Mae amrywiant rhyweddol yn wahanol i gyfeiriadedd rhywiol. Mae hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i atyniad rhywiol. Gall pobl drawsryweddol, fel pawb arall, fod yn strê, yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol. Felly, mae bwllo trawsffobaidd yn wahanol i fwlio homoffobaidd, er bod rhai elfennau tebyg.

Bwllo ar sail delwedd/maint corff

Bwllo ar sail delwedd/maint corff yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

Mae bwllo o'r fath wedi cynyddu yn ddiweddar o ganlyniad i'r pryder cenedlaethol bod gordewdra ar gynydd.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod plant y credir eu bod dros eu pwysau yn aml yn cael eu hystyried yn israddol o safbwynt addysgol a chymdeithasol, a hefyd nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi gymaint. Mae'r modd y mae'r cyfryngau'n ategu pryderon ynglŷn â delwedd/maint corff o hyd ac o hyd ac yn bychanu'r materion hyn yn ffactor allweddol sy'n gysylltiedig â'r broblem hon.

Dangosodd Adroddiad Arolwg Agweddau Merched Geidiaid y DU 2011 fod mwy na hanner (55%) y merched ifanc ledled y Deyrnas Unedig yn credu bod y pwysau i edrych fel rhywun enwog yn achosi straen iddynt.

Dangosodd canfyddiadau tebyg mewn arolwg a gynhaliwyd gan Ipsos MORI fod 50% o ferched yn teimlo dan bwysau i edrych yn dda bob amser a bod 46% o ferched yn teimlo dan bwysau i golli pwysau.

Ac nid merched yn unig sy'n cael eu heffeithio. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan y YMCA a'r Ganolfan Ymchwil i Edrychiad fod un o bob deg bachgen yn dweud y byddent yn dechrau cymryd steroidau i gael cyhyrau mwy pe baent yn anhapus â'u hedrychiad.

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid mewn ysgolion fod bwllo ar sail

delwedd corff yn fath cyffredin o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Dywedodd 16% o'r ymatebwyr fod rhywun wedi bod yn eu bwlio neu'n aflonyddu arnynt oherwydd hyn.

Mae archwiliad o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn dangos hierarchaeth bwlio lle mae rhai mathau o fwlio'n cael eu trin yn llai difrifol nag eraill. Mae bwlio ar sail delwedd/maint corff yn aml yn cael ei ystyried fel y math lleiaf pwysig. Yn rhy aml o'r hanner mae'n cael ei drin yn wamal a'i wfftio fel 'rhan o dyfu i fyny' neu ychydig o sbort ar fuarth yr ysgol.

SEIBERFWLIO – ARF Y BWLI

Mae NASUWT yn cydnabod bod datblygiadau digidol yn darparu sianeli cyfathrebu cadarnhaol a chynhyrchiol ac yn gwella'r cymorth dysgu ac arferion gweithio athrawon a staff eraill mewn ysgolion yn sylweddol.

Er hyn, mae'r Undeb yn bryderus ynglŷn â chamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, safleoedd rhyngrwyd a ffonau symudol ac mae wedi sefydlu ymgyrch yn erbyn seiberfwlio mewn ysgolion.

Mae datblygiadau yn y defnydd a wneir o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi darparu arfau newydd a soffistigedig y gall bwllis eu defnyddio i gyflawni eu gweithgareddau.

Gall seiberfwlio gynnwys camddefnyddio ebost, rhyngrwyd, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, rhith-amgylcheddau dysgu, camerâu digidol a ffonau symudol. Mae'n dipyn o her i ysgolion ac mae'n effeithio ar ddisgyblion a staff fel ei gilydd.

Mae'r datblygiadau hyn mewn technoleg yn golygu y gall seiberfwlio ddigwydd unrhyw bryd. Yn aml iawn mae'r bwli'n ddiennw, a thra mae'r bwli'n gallu gwneud beth bynnag y mae am ei wneud o ddiogelwch ei gartref, dyw'r sawl sy'n cael ei fwlio ddim yn gallu teimlo'n ddiogel hyd yn oed yn ei gartref ei hun. Mae'r math hwn o fwlio'n aml yn fwy niweidiol, gan fod negeseuon neu ddelweddau creulon sy'n peri tramgwydd yn gallu cael eu lledaenu'n gyflym iawn ac yn cael eu gweld gan lawer o bobl.

Mae seiberfwlio hefyd yn cael effaith ddifrifol ar iechyd, lles, hyder a hunan-dyb athrawon ac, mewn rhai achosion, ar eu datblygiad gyrfael gan fod cyflogwyr yn mynd drwy wefannau i chwilio am wybodaeth.

Datblygodd ymgyrch NASUWT yn erbyn seiberfwlio, sy'n bodoli ers tipyn erbyn hyn, yn dilyn cynnydd mewn gwaith achos ac adroddiadau gan

athrawon a phenaethiaid a oedd yn dangos eu bod yn profi digwyddiadau bwlio ac aflonyddu, yn fwyaf arbennig gan ddisgyblion. Yn ogystal â chynyddu'r llwyth gwaith roedd hyn hefyd wedi darparu cyfrwng ar gyfer bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac aflonyddu ar staff.

Un agwedd a oedd yn peri pryder penodol oedd y defnydd cynyddol o wefannau fel YouTube a RateMyTeachers gan ddisgyblion i sarhau staff a gwneud honiadau maleisus yn eu herbyn nad oeddent yn wir.

Yn ystod 2007, casglodd NASUWT dystiolaeth gan athrawon a phenaethiaid er mwyn gweld faint o broblem oedd seiberfwlio. Roedd yr ymateb i'r arolwg ar-lein yn syfrdanol. Dangosodd y dystiolaeth fod disgyblion sy'n camddefnyddio'r gwefannau hyn a ffonau symudol wedi achosi poen corfforol a meddyliol i lawer o athrawon a phenaethiaid ac wedi cael effaith niweidiol ar eu hiechyd a'u lles a'u rhagolygon gyrfaol.

Mewn arolwg a gynhaliwyd gan yr Undeb yn 2012, dan y teitl 'The Abuse of Social Media and Internet Sites', dywedodd mwy na thraean yr ymatebwyr bod sylw dilornus, honiad o ymddygiad amhriodol â disgybl, sylw ynglŷn â'u perfformiad neu sylw arall amdanynt wedi cael ei roi ar-lein neu ar safle rhwydweithio cymdeithasol.

Disgyblion rhwng 11 ac 16 oed oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion o seiberfwlio athrawon. Er hyn, roedd sylwadau sarhaus wedi'u derbyn hefyd gan ddisgyblion mor ifanc â phum mlwydd oed.

Y CYD-DESTUN CYFREITHIOL

Mae gan ysgolion nifer o rwymedigaethau statudol sy'n sefydlu cyfrifoldebau clir i ymateb i fwlio.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

O dan Adran 61 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae gan benaethiaid yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod gan eu hysgol bolisi gwrth-fwlio.

Mae'r gyfraith hon yn berthnasol i ysgolion yng Nghymru ac mae Canllawiau Diogelwch 2006 y Llywodraeth yn nodi y 'dylai pob lleoliad lle darperir gwasanaethau i blant sicrhau bod eu strategaethau gwrth-fwlio yn cael eu gorfodi'n llym'.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno un Ddeddf yn lle'r deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol.

Un o'r prif ddarpariaethau yw un ddyletswydd cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus, a ddaeth i rym yn Ebrill 2011. Mae'n disodli tair dyletswydd cydraddoldeb flaenorol y sector cyhoeddus ar gyfer hil, anabledd a rhyw â naw o nodweddion gwarchodedig: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n ofynnol i ysgolion gydymffurfio â'r ddyletswydd gydraddoldeb newydd.

Mae gan y ddyletswydd dair nod. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlyn anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gorff sy'n gyfrifol am ysgol wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlyn disgybl neu ddarpar ddisgybl mewn perthynas â derbyniadau, y ffordd y mae'n darparu addysg i ddisgyblion ac yn darparu mynediad i ddisgyblion at unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth, neu drwy wahardd disgybl neu ei roi dan anfantais mewn unrhyw ffordd arall. Yng Nghymru, mae'r Ddeddf yn berthnasol i bob ysgol a gynhelir ac i bob ysgol annibynnol, i ysgolion arbennig a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir.

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Yn Ebrill 2012 ychwanegodd y Rheoliadau hyn at ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy osod dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol ar awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol, gan gynnwys ysgolion. Dylid cyhoeddi amcanion cydraddoldeb a rhaid i 'awdurdod' hefyd gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau y mae wedi'u cymryd, neu y mae'n bwriadu eu cymryd, er mwyn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb hynny a ffrâm amser ar gyfer cyflawni pob amcan cydraddoldeb. Rhaid gwneud trefniadau i fonitro cynnydd wrth gyflawni pob amcan a monitro effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i'w cyflawni.

Wrth ddatblygu amcanion:

- rhaid i awdurdod gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau;
- gall awdurdod gynnwys pobl eraill y mae o'r farn eu bod yn briodol;
- gall awdurdod ymgynghori â phobl eraill y mae o'r farn eu bod yn briodol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Er bod plant a phobl ifanc yn dod dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, mae eu hawliau wedi'u nodi'n gliriach o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er nad oes cyfeiriad penodol at fwlio yn y naill na'r llall, mae bwlio yn mynd yn groes i nifer o'r erthyglau sydd yn y ddau. Yn ychwanegol at hyn, mae'r ddau'n amlinellu cyfrifoldebau oedolion i amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc rhag ymddygiad sy'n bwlio.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Mae ysgolion a cholegau yn awdurdodau cyhoeddus ac, o ganlyniad, maent wedi'u rhwymo gan ddeddfwriaeth ddomestig, a hefyd gan ddyletswyddau hawliau dynol rhyngwladol y mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt. Mae Erthygl 2 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarantu na fydd neb yn cael ei amddifadu o'r hawl i addysg. Gellid dadlau felly bod pobl ifanc yn cael eu hamddifadu o'r hawl hon os nad yw ysgolion yn eu hamddiffyn yn ddigonol rhag bwlio.

Mae Erthygl 13 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarantu y bydd cywiriad effeithiol ar gael i unrhyw un y mae ei hawliau o dan y confensiwn yn cael eu treisio.

Diogelu plant a phobl ifanc

O dan Ddeddf Plant 1989, dylid trin digwyddiad lle mae plentyn yn cael ei fwlio fel mater amddiffyn plant os oes 'lle rhesymol i amau bod plentyn yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol'. Mewn achos o'r fath, dylai staff yr ysgol ddwyn eu pryder i sylw'r awdurdod lleol.

Hyd yn oed pan nad yw diogelu'n cael ei ystyried yn broblem, efallai y bydd angen i ysgolion ddefnyddio gwasanaethau allanol amrywiol i gefnogi'r disgybl sy'n cael ei fwlio neu i fynd i'r afael ag unrhyw fater sylfaenol sydd wedi achosi i blentyn gyflawni'r bwlio.

Cyfraith trosedd

Er nad yw bwllo ynddo'i hun yn drosedd benodol yn y Deyrnas Unedig mae'n bwysig cadw mewn cof y gallai rhai mathau o aflonyddu neu ymddygiad neu gyfathrebu bygythiol fod yn drosedd - er enghraifft, o dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988, Deddf Cyfathrebu 2003 a Deddf Trefn Gyhoeddus 1986.

Os yw staff ysgol yn teimlo y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni, dylent ofyn i'r heddlu am gymorth. Er enghraifft, o dan Ddeddf Cyfathrebu Maleisus 1988, mae'n drosedd i rywun anfon cyfathrebiad electronig at rywun arall â'r bwriad o achosi gofid neu bryder, neu i anfon cyfathrebiad electronig sy'n cyfleu neges sy'n anweddus neu'n hynod sarhaus, bygythiad, neu wybodaeth nad yw'n wir a bod y sawl sy'n ei hanfon yn gwybod neu'n credu nad yw'n wir.

Bwllo y tu allan i dir yr ysgol

Mae gan benaethiaid bŵer statudol penodol i ddisgyblu disgyblion am ymddygiad gwael hyd yn oed os nad ydynt ar dir yr ysgol. Mae Adran 89(5) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn berthnasol i ysgolion yng Nghymru ac mae Adran 89 yn rhoi'r pŵer i benaethiaid reoleiddio ymddygiad disgyblion pan nad ydynt ar dir yr ysgol a phan nad ydynt dan reolaeth neu ofal cyfreithiol aelod o staff yr ysgol. Mae Adran 88 yn nodi cyfrifoldeb corff llywodraethu am ddisgyblaeth, gan gynnwys Adran 88(1) sy'n nodi: 'Rhaid i gorff llywodraethu ysgol berthnasol sicrhau bod polisiau a luniwyd er mwyn hybu ymddygiad da a disgyblaeth ar ran ei ddisgyblion yn cael eu dilyn yn yr ysgol.'

Mae Adran 88(4)(b) yn nodi bod yn 'rhaid i'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd – mewn perthynas â Chymru, gan y Cynulliad.' Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i ysgolion annibynnol.

Gall y pŵer a roddwyd i benaethiaid fod yn berthnasol i unrhyw fwlio sy'n digwydd yn unrhyw le heb fod ar dir yr ysgol, er enghraifft ar gludiant i'r ysgol neu gludiant cyhoeddus, y tu allan i'r siopau lleol, neu yng nghanol tref neu bentref.

Pan fydd bwllo y tu allan i'r ysgol yn cael ei ddwyn i sylw staff ysgol, dylid ymchwilio iddo a gweithredu. Dylai'r pennaeth hefyd ystyried a yw'n briodol hysbysu'r heddlu neu'r person priodol sy'n ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hawdurdod lleol ynglŷn â'r camau a gymerwyd yn

erbyn disgybl. Os gallai'r camymddwyn fod yn drosedd neu os yw'n achosi bygythiad difrifol i aelod o'r cyhoedd, dylid hysbysu'r heddlu bob amser.

Daeth Deddf Addysg 2011 â nifer o ddiwygiadau i'r ddarpariaeth addysg yng Nghymru. Mae Adran 13 o'r Ddeddf yn diwygio Deddf Addysg 2002 ac yn rhoi cyfyngiadau adrodd ar droseddau honedig a gyflawnwyd gan athrawon yn erbyn disgyblion. Byddai hyn yn cynnwys cyhuddiadau o fwlio. Ar adeg cyhoeddi'r llyfryn hwn, nid yw'r cyfyngiadau adrodd wedi dod i rym yng Nghymru eto, ond dylent ddod yn gyfraith maes o law. Mae ychydig o eithriadau ar gyfer y darpariaethau ac maent yn berthnasol dim ond hyd at y pwynt y mae athro/athrawes yn cael ei gyhuddo o drosedd. Lluniwyd y darpariaethau er mwyn amddiffyn athrawon sydd wedi cael eu cyhuddo ar gam ac yn faleisus o droseddau yn erbyn disgybl.

MYND I'R AFAEL Â BWLIO SY'N GYSYLLTIEDIG Â RHAGFARN

Dangosodd arolwg NASUWT yn 2011 o fwlio ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith athrawon a phenaethiaid fod angen i ysgolion wneud llawer mwy o waith o hyd er mwyn dileu bwllo sy'n gysylltiedig â rhagfarn ymhlith disgyblion a staff.

Dangosodd yr arolwg nad yw mwy na hanner y digwyddiadau bwllo neu aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cael eu dwyn i sylw rywun – dim ond 15% o'r dioddefwyr oedd yn rhoi gwybod am bob digwyddiad. Roedd tri phrif reswm am beidio â rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Roedd y rhain yn ymwneud â phryder ynglŷn â'r effaith negyddol ar yrfa oedd yn y dyfodol, gan nad oedd y dioddefwyr yn credu y byddai camau priodol yn cael eu cymryd, a chan fod ganddynt ofn y byddai rhywun yn dial arnynt yn y dyfodol o ganlyniad i roi gwybod am y digwyddiad.

Roedd hanner yr holl ddioddefwyr bwllo/aflonyddu yn gwbl anfonlon ag ymateb yr ysgol/coleg i fwlio/aflonyddu a oedd wedi cael ei ddwyn i'w sylw. Mewn 45% o'r achosion, nid oedd y dioddefwr yn gwybod a oedd yr ysgol/coleg wedi cymryd camau pellach.

Cred NASUWT y dylid cael agwedd ysgol-gyfan at atal a mynd i'r afael â bwllo sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Bydd strategaeth wrth-fwlio effeithiol yn cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol, dylai gael ei monitro'n rheolaidd a rhaid iddi fodloni gofynion cyfreithiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu 'Parchu Eraill', cyfres o ddeunyddiau gwrth-fwlio sy'n darparu canllawiau ac atebion ymarferol yn ymwneud ag atal ac ymateb i achosion o fwlio mewn ysgolion. Mae'r

canllawiau hyn i'w gweld yn yr adran addysg a sgiliau ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=cy>

Polisïau ysgolion

Dylid cael polisi clir i ymdrin â bwllo ac aflonyddu ar ddisgyblion a staff. Dylai polisïau a gweithdrefnau gwrth-fwlio ysgolion gynnwys cyfeiriad penodol at fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn ei holl ffurfiau. Dylid datblygu polisïau'r ysgol drwy ymgynghori â NASUWT ac undebau llafur eraill a rhieni, a dylid sicrhau bod yr holl staff a'r disgyblion yn ymwybodol ohonynt.

Yn ychwanegol at hyn, mae NASUWT yn cefnogi'r canlynol:

- defnyddio cosbau ar gyfer achosion o fwlio. Mae NASUWT yn credu na ddylid goddef bwllo ar unrhyw gyfrif;
- mewn polisïau ysgolion, dylai ffonau symudol gael eu trin fel arfau a allai beri tramgwydd a dylid gwahardd disgyblion rhag eu defnyddio yn ystod sesiynau ysgol;
- mae diwylliannau ac arferion ysgolion yn atal unigolion rhag rhoi gwybod am achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac mae angen cywiro'r broblem hon;
- dylid cymryd camau er mwyn rhoi mwy o hyder i athrawon roi gwybod am achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn a rhoi sylw i'r ofn y bydd rhywun yn dial;
- dylid cael system effeithiol i gadw cofnod a rhoi gwybod am bob achos o fwlio fel sail i fynd i'r afael â'r broblem ac addasu strategaethau;
- ni ddylai polisïau a gweithdrefnau ysgol ei gwneud yn ofynnol i athrawon, nac annog athrawon, i roi rhif ffôn symudol neu gyfeiriad ebost unigol i ddisgyblion;
- dylid addysgu plant a phobl ifanc ynglŷn â bwllo a pherthnasoedd iach sy'n dangos parch at bobl eraill, a dylid defnyddio'r cwricwlwm ehangach i godi materion sy'n ymwneud â bwllo;
- dylid darparu datblygiad proffesiynol cynhwysfawr i staff er mwyn eu galluogi i:
 - adnabod arwyddion bwllo staff a disgyblion a gwybod sut i ymateb yn gyflym ac yn sensitif;

- creu amgylchedd a strwythur ymateb lle mae'r rhai sy'n profi bwlio'n teimlo'n ddigon hyderus i roi gwybod am achosion o fwlio;
- annog y rhai sy'n gweld bwlio i roi gwybod am hynny;
- diogelu plant;
- sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff.

Defnyddio a chamddefnyddio technoleg

Mae datblygiadau mewn technoleg wedi arwain at welliannau sylweddol o ran cymorth i ddysgu, ac yn arferion gweithio athrawon ac aelodau eraill o weithlu'r ysgol.

Gwelir tystiolaeth gynyddol o gamddefnyddio technoleg, yn enwedig ffonau symudol, ebost a safleoedd rhyngrwyd. Maent yn arwain at fwy o lwyth gwaith ac yn darparu cyfrwng ar gyfer bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn ac aflonyddu ar staff, ac ar gyfer gwneud honiadau nad ydynt yn wir yn eu herbyn.

Mae nifer o wahanol safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn cael eu defnyddio, e.e. Facebook, Twitter a YouTube. Mae NASUWT yn cynghori pob athro/athrawes i edrych yn ofalus ar bob safle rhyngrwyd lle maent wedi cofnodi unrhyw wybodaeth bersonol a allai gael ei gweld gan fyfyrwyr neu gan gyflogwyr.

Beth all athrawon ei wneud i'w hamddiffyn eu hunain

- Edrychwch ar bolisi neu weithdrefnau'r ysgol ar ddefnydd derbynol o dechnoleg er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn diogelu staff yr ysgol.
- Cadwch rifau ffôn personol yn breifat a pheidiwch â defnyddio ffonau symudol personol i gysylltu â disgyblion neu rieni.
- Peidiwch â derbyn ceisiadau 'ffrind' gan ddisgyblion na rhieni na'u hychwanegu at restrau cysylltiadau personol. Gallai hyn olygu eu bod yn gallu gweld gweithgaredd a gwybodaeth bersonol, a gallai eu galluogi i gysylltu'n amhriodol. Efallai hefyd y byddant yn rhoi mynediad i athrawon at wybodaeth amhriodol.
- Peidiwch â rhannu'n gyhoeddus unrhyw wybodaeth na fydddech eisiau i gyflogwyr, cydweithwyr, disgyblion neu rieni ei gweld.
- Cadwch eich cyfrineiriau'n gyfrinachol a gwnewch yn siŵr na all neb arall gael mynediad at gyfrifon cyfrifiadurol personol.
- Gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn cyfyngu mynediad at gyfrifon rhyngrwyd personol ac yn gosod lefelau preifatrwydd.

- Peidiwch â dial nac ymgysylltu'n bersonol ag achosion o seiberfwlio.
- Rhowch wybod am unrhyw achosion cyn gynted ag y bo modd i'r person priodol mewn awdurdod yn yr ysgol.
- Cadwch gofnod o bob digwyddiad (ynghyd â dyddiadau, amseroedd, tystion, teimladau a gafwyd). Efallai y bydd llawer o'r digwyddiadau'n ymddangos yn ddibwys ar eu pen eu hunain, felly mae'n bwysig canfod a oes patrwm dros gyfnod.
- Cysylltwch â NASUWT i gael rhagor o gyngor os ydych yn dod yn darged seiberfwlio.

Beth i'w wneud os byddwch yn dioddef bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Mae NASUWT yn darparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw unigolyn sy'n teimlo ei fod yn cael ei fwlio. Mae gan bob aelod o NASUWT ran bwysig i'w chwarae drwy weithio gyda'r Undeb er mwyn mynd i'r afael â bwlio yn eu gweithleoedd.

Mae nifer o strategaethau y gall aelodau unigol eu defnyddio pan fyddant yn cael eu bwlio ac er mwyn ei osgoi. Dylai'r unigolyn gofio nad arno ef mae'r bai ei fod yn cael ei fwlio.

Dylai:

- siarad â Chynrychiolydd NASUWT cyn gynted ag y bo modd;
- cadw cofnod o'r bwlio, gan gynnwys copiâu o femos a llythyrau a dyddiadur o'r digwyddiadau;
- siarad â rhywun am y bwlio, er enghraifft aelod o'r teulu, cynghorydd neu rywun y gall yr unigolyn ymddiried ynddo yn y gwaith;
- cysylltu â'r meddyg teulu os yw'r bwlio'n cael effaith niweidiol ar iechyd;
- ystyried cysylltu â'r Rhwydwaith Cymorth i Athrawon;
- darganfod a oes cynllun cymorth i weithwyr ar gael;
- ystyried dewisiadau megis hyfforddiant pendantrwydd a chyfryngu;
- peidio â mynd i gyfarfodydd gyda'r bwli ar eich pen eich hun ac ystyried a oes modd cael llai o gysylltiad â'r bwli.

YMGYRCH BARHAUS NASUWT

Mae NASUWT wedi bod ar flaen y gad wrth geisio tynnu sylw at broblem bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

Mae proffil bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn llawer uwch nawr nag y mae wedi bod erioed. Ond mae rhagor o waith i'w wneud eto er mwyn codi ymwybyddiaeth o'i natur a'i effeithiau fel bod modd datblygu fframwaith cenedlaethol cydlynol a chynhwysfawr i helpu ysgolion i fynd i'r afael â bwlio.

Bydd NASUWT yn dal i dynnu sylw at fwlio lle mae'n digwydd, gan gynorthwyo ei aelodau i fynd i'r afael â bwlio ym mhob ffordd briodol, gan gynnwys iawndal cyfreithiol os yw'n bosibl.

Bydd NASUWT yn dal i gyhoeddi cyngor sy'n tynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael a beth i'w wneud os byddwch yn cael eich bwlio. Cefnogir hyn gan yr hyfforddiant o safon uchel sy'n cael ei ddarparu i Gynrychiolwyr NASUWT yn y Gweithle ar sgiliau cynrychioli, ymdrin â chwynion ac ymdrin â bwlio'n benodol.

Bydd NASUWT yn dal i fynd i'r afael â bwlio drwy ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o broblem bwlio yn y gweithle a'r effaith ddychrynlyd y gall bwlio ei gael ar athrawon ac ar blant a phobl ifanc.

Ymgyrch NASUWT

Bydd NASUWT yn dal i ymgyrchu dros:

- gwricwlwm sy'n adlewyrchu ac yn dysgu ynglŷn ag amrywiaeth hiliol, ddiwylliannol a chrefyddol Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd ac yn mynd i'r afael â materion stereoteipio rolau rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol;
- mwy o ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae cyflogwyr yn defnyddio cynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- canllawiau arferion da'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac archwiliadau iechyd a diogelwch gweithleoedd i gynnwys cyfeiriadau at gamddefnyddio technoleg;
- mwy o amddiffyniad yn y gyfraith i ddioddefwyr honiadau maleisus ac anwir a seiberfwlio.

Cysylltiadau defnyddiol

Y Gynghrai Gwrth-Fwlio

www.anti-bullyingalliance.org.uk

Childnet International

www.childnet.com

Canolfan y DU ar Ddefnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel (UK Safer Internet Centre)

Llinell gymorth ac adnoddau: www.saferinternet.org.uk

Rhwydwaith Cymorth i Athrawon

www.teachersupport.info

Cyngor a chefnogaeth

NASUWT Cymru

Greenwood Close, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080

Ebost: rc-wales-cymru@mail.nasuwat.org.uk

Gwefan: www.nasuwat.org.uk

Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0603300 neu 0845 010 3300

Gwefan: www.llyw.cymru



E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk